PRCA DARE AWARDS 3Gem Research & Insights 2024

PECYN CYFLWYNO CAIS 2024

Nod Gwobrau PRCA DARE yw chwilio am y gweithwyr proffesiynol gorau ym maes cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu ledled y DU a'u gwobrwyo. Caiff yr enillwyr eu dewis gan banel o arbenigwyr sy'n uchel eu parch yn y diwydiant ar draws wyth rhanbarth. Mae'r gwobrau yn amlygu doniau rhagorol ac yn dathlu gweithwyr cysylltiadau cyhoeddus proffesiynol ledled y wlad. Dyma eich cyfle i arddangos a dathlu eich llwyddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf, a chael cydnabyddiaeth gan gorff proffesiynol mwyaf y byd ym maes cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu.

- **Hyrwyddwch y diwydiant –** Rydym yn sefydliad nid-er-elw, felly mae'r holl elw o'n gwobrau yn cael ei ailfuddsoddi yn ein diwydiant er mwyn helpu timau ac unigolion i roi'r gwerth mwyaf posibl yn y gwasanaethau y maent yn eu darparu i gleientiaid a sefydliadau.
- **Anogwch eich tîm –** Mae'r gwobrau hyn yn llwyfan gwych i dynnu sylw at waith rhagorol eich tîm a gwobrwyo pob aelod.
- **Ehangwch eich rhwydwaith –** Cyfle i gael mwy o fusnes a chreu cyfleoedd i gael cwsmeriaid newydd trwy fod yng nghwmni busnesau llwyddiannus.

CANLLAWIAU

Mae Gwobrau PRCA DARE yn agored i bawb sy'n gysylltiedig â defnyddio cysylltiadau cyhoeddus at ddibenion cyfathrebu, gan gynnwys: ymgyngoriaethau cysylltiadau cyhoeddus, timau cyfathrebu mewnol, asiantaethau digidol, timau marchnata a pherchnogion cyfryngau.

Gallwch gyflwyno cais yn un o'r wyth rhanbarth/gwledydd canlynol:

- De-ddwyrain Lloegr
- De-orllewin Lloegr
- Cymru
- Canolbarth Lloegr
- Gogledd-ddwyrain Lloegr, Swydd Efrog, a Swydd Lincoln
- Gogledd-orllewin Lloegr
- Yr Alban
- Gogledd Iwerddon

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael caniatâd i ddefnyddio eiddo deallusol y brand neu'r cleient.

Gall sefydliadau gyflwyno mwy nag un cais ym mhob categori. Gall cwmnïau neu unigolion gyflwyno ceisiadau ar ran eu hunain neu eraill.

Nid oes terfyn ar sawl gwaith y gall sefydliadau gyflwyno cais ym mhob categori, ond hyd at 3 gwaith y gellir eu rhoi ar y rhestr fer fesul categori.

DYDDIADAU PWYSIG A PHRISIAU

Cais Cynnar	**28 Chwefror 2024**
Dyddiad Cau	**20 Mawrth 2024**
Cyhoeddi pwy sydd yn y rownd derfynol	**19 Ebrill 2024**
Seremonïau Gwobrwyo	**Mai – Gorffennaf 2024**
Cais Cynnar *Aelodau*	**£140+TAW**
Cais Cynnar *Pawb arall*	**£190+TAW**
Cais Terfynol *Aelodau*	**£185+TAW**
Cais Terfynol *Pawb arall*	**£220+TAW**

Gwobr Gweithiwr Proffesiynol y Flwyddyn
£100 + TAW i Aelodau | £125 + TAW i Bawb Arall

Gwobr Seren Newydd y Flwyddyn
AM DDIM i Aelodau | £50 + TAW i Bawb Arall

CYMHWYSEDD A CHYFRINACHEDD

Rhaid i bob cais a gyflwynir yng nghategorïau'r Gwobrau Ymgyrchoedd fod ar gyfer gwaith a gafodd ei wneud rhwng 31 Mawrth 2023 a 20 Mawrth 2024 (y dyddiad cau). Rhaid i lawer iawn o'r gwaith ymgyrchu fod wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwn, ond nid oes angen i'r ymgyrch fod wedi dechrau neu ei chwblhau yn ystod y cyfnod o dan sylw.

Ar gyfer y categorïau sy'n cydnabod perfformiadau timau neu ymgyngoriaethau, gwnewch yn siŵr bod y ffigurau ariannol yn ymwneud â'ch blwyddyn ariannol ddiweddaraf.

Cofiwch nad oes rhaid i geisiadau ar gyfer y categori ymgyrchoedd ymwneud ag ymgyrch neu brosiect penodol. Yn hytrach, gallant fod yn rhan o waith sy'n mynd rhagddo neu gyfuniad o weithgareddau.

Bydd y beirniaid yn tybio y bydd ymgyrchoedd sy'n defnyddio enwogion neu sefydliadau eraill wedi cael eu talu am gymryd rhan oni nodir fel arall.

EICH CAIS

Mae Gwobrau PRCA DARE yn eich annog i fod mor greadigol ag y dymunwch, gan nad oes fformat 'swyddogol' y mae'n rhaid i chi ei ddefnyddio yn eich cais am Wobr. Rhaid i'ch cais ysgrifenedig fod hyd at 1,000 o eiriau o hyd, mewn ffont maint 10 a ddim mwy na 4 ochr o A4. Fodd bynnag, cadwch at y meini prawf *ar dudalen 3.*

Gorfodol:

- Rhaid lanlwytho logo'r cwmni ochr yn ochr â'ch cais. Gallwch hefyd gynnwys delweddau yng nghorff eich cais i gefnogi'ch achos.
- Rhaid nodi cyllideb yr ymgyrch. Os bydd cysylltiadau cyhoeddus yn rhan o ymgyrch integredig, nodwch y gyllideb ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus. Rhaid i gyllideb fras yr ymgyrch fod yn glir.
- Os yw'r ymgyrch wedi'i hintegreiddio, nodwch rôl cysylltiadau cyhoeddus wrth ddangos y canlyniadau ac amlinellwch waith y meysydd marchnata eraill.
- Ar gyfer y categorïau sy'n cydnabod perfformiadau timau neu ymgyngoriaethau, gwnewch yn siŵr bod y ffigurau ariannol yn ymwneud â'ch blwyddyn ariannol ddiweddaraf.

Deunyddiau Ategol (dewisol):

Mae dogfennaeth ategol fel rhannau o erthyglau yn y wasg a dolenni fideo/URL yn ddewisol – dylech gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn eich prif gais. Os ydych yn dewis cynnwys fideo, rhaid iddo beidio â bod dros 4 munud o hyd a rhaid ei lanlwytho i'n gwefan ceisiadau gyda'ch cais. Cofiwch mai dim ond pan mae'r beirniaid yn methu gwahaniaethu rhwng dau gais y caiff dogfennau ategol eu hystyried.

MEINI PRAWF

Bydd y beirniaid yn marcio'ch cais ar sail y meini prawf canlynol:

CATEGORÏAU YMGYRCHOEDD

Strategaeth ac ymchwil, gweithredu, creadigrwydd, gwreiddioldeb, effeithiolrwydd a chanlyniadau.

**Rhaid nodi cyllideb yr ymgyrch. Rhaid i bob cais gynnwys unrhyw asiantaethau neu dimau sy'n rhan o'r ymgyrch.*

CATEGORÏAU UNIGOLION

Arweinyddiaeth, mentergarwch, perfformiad a chyfraniad, a geirda gan gydweithwyr/cleientiaid.

CATEGORÏAU TIMAU

- Cleientiaid: cadw, twf a pherfformiad.
- Pobl: ymrwymiad i ddatblygu ac amrywiaeth, ymarfer arloesol ac ymgysylltu â gweithwyr.
- Ariannol: rhaid datgelu perfformiad, twf a chaffaeliadau.
- Arloesedd: buddsoddi mewn isadeiledd, cynhyrchion newydd gan y cleient, a/neu ddull newydd o staffio.

GWOBR DIWYLLIANT TÎM A CHYMUNED

- Arweinyddiaeth: sut mae'r sefydliad yn gwthio'r diwylliant/cymuned ymlaen fel y safon aur ar gyfer y diwydiant, ac yn galluogi eu tîm cyfan i wneud yr un peth.
- Mentergarwch: beth maent wedi'i wneud i hyrwyddo cymuned, cydraddoldeb, amrywiaeth, iechyd meddwl ymhlith staff, ac ati.
- Effaith: Sut mae'r uchod wedi effeithio ar ddiwylliant eu gweithle a'r gymuned (fewnol ac allanol), yn ogystal â geirda gan staff/cydweithwyr/cleientiaid/cymuned/elusennau partner.

Manylion cyswllt:
I gael gwybodaeth am y Gwobrau, cysylltwch â: **dareawards@prca.org.uk** neu ffoniwch **020 723 36026**.

I gael gwybodaeth am nawdd, ebostiwch Steve Miller – **Steve.Miller@prca.org.uk**

PECYN CYFLWYNO CAIS 2024

GAIR I GALL

1. DILYNWCH Y CANLLAWIAU

Darllenwch y canllawiau fwy nag unwaith! Bydd y beirniaid yn glynu at y meini prawf yn y canllawiau, felly darllenwch y rhain yn ofalus er mwyn i chi gael y cyfle gorau posibl yn y broses. Mae hyn yn cynnwys nifer y geiriau!

2. CANLYNIADAU

Mae canlyniadau ac effeithiolrwydd yn adran benodol o'r meini prawf marcio. Felly, os nad ydych yn dangos dulliau mesur a gwerthusiad clir, gallech golli'r cyfle i ennill!

3. DEWISWCH YN DDOETH

Mae amrywiaeth, dyfnder ac ehangder y diwydiant cysylltiadau cyhoeddus ochr yn ochr â'r amrediad eang o gategorïau yn golygu bydd rhai elfennau'n berthnasol i fwy nag un categori. Dewiswch y categori'n ddoeth er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn cael y cyfle gorau posibl i ennill.

4. BYDDWCH YN ONEST

Boed yn ymwneud â chostau, ymgyrchoedd, mesuriadau a chanlyniadau sy'n rhy uchel, neu ddefnyddio unrhyw wybodaeth anghywir, bydd y beirniaid yn sylwi'n syth! Peidiwch â gwastraffu'r cyfle i ennill drwy roi cais afrealistig i'r beirniaid.

5. CYNLLUNIWCH

Ystyriwch faint o geisiadau eraill y gallech fod yn cystadlu yn eu herbyn a sylweddolwch na fydd cais munud olaf yn ddigon da i ennill. Bydd cais da yr ydych wedi rhoi digon o amser, meddwl ac egni ar ei gyfer, yn rhagori ar y ceisiadau eraill.

6. CEISIWCH BEIDIO Â THYBIO

Er bod y beirniaid yn arbenigwyr yn eu sector, mae'n bosibl na fyddant yn gwybod popeth am eich cais. Wedi dweud hynny, ceisiwch roi cymaint o fanylion â phosibl a gwneud yn siŵr bod eich cais yn glir i'r beirniaid o'r dechrau.

7. BYDDWCH YN GREADIGOL

Rhowch rywbeth rhyngweithiol i'r beirniaid edrych arno er mwyn iddynt ddeall eich cais yn well. Boed hynny trwy ddefnyddio iaith, delwedd neu fideo, dewch â'ch cais yn fyw drwy wahanol gyfryngau.

CATEGORÏAU GWOBRAU YMGYRCHOEDD

GWOBR B2B
Mae'r wobr hon yn cydnabod gwaith gwasanaethau neu frandiau sy'n targedu marchnadoedd busnes neu nid-er-elw. Mae'n ymwneud â gwaith sy'n cynnwys hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau un busnes i un arall.

GWOBR ELUSEN/NID-ER-ELW
Mae'r wobr hon yn cydnabod ymgyrchoedd cysylltiadau cyhoeddus rhagorol a gyflwynwyd gan, neu ar ran, elusennau neu fentrau cymdeithasol.

GWOBR CYSYLLTIADAU DEFNYDDWYR
Mae'r wobr hon yn cydnabod gwaith sy'n cynnwys hyrwyddo cynhyrchion neu wasanaethau i ddefnyddwyr a gyflwynir gan y sectorau preifat, cyhoeddus neu elusennol.

GWOBR YMGYSYLLTU Â GWEITHWYR
Mae'r wobr hon yn cydnabod ymgyrchoedd cyfathrebu mewnol sy'n ymgysylltu â staff, arwain newid sefydliadol, rhoi gwerth ychwanegol i randdeiliaid, neu newid ethos sefydliad.

GWOBR AM Y DEFNYDD GORAU O DDATA A DADANSODDEG
Mae'r categori hwn yn gwobrwyo'r ymgyrch neu'r rhaglen orau o ran defnyddio adroddiadau a dulliau mesur. Dylech roi manylion am sut oedd y rhaglen adrodd neu fesur yn arloesol, sut cafodd ei chreu, a'r manteision a gafwyd. Gall fod yn ymgyrch unwaith yn unig neu ar gyfer rhaglen barhaus. Dylai manylion yr ymgyrch, gan gynnwys y canlyniadau a gyflawnwyd a'r gyllideb yn fras, gael eu cynnwys yn y cais.

GWOBR CYFRYNGAU DIGIDOL A CHYMDEITHASOL
Mae'r wobr hon yn cydnabod ymgyrchoedd sy'n cynnwys elfen amlwg o ddefnyddio cyfryngau digidol a chymdeithasol, boed ar eu pen eu hunain neu'n rhan o raglen integredig o weithgareddau cysylltiadau cyhoeddus a marchnata wedi'u targedu.

YMGYRCH INTEGREDIG Y FLWYDDYN
Mae'r wobr hon yn cydnabod gwaith sy'n defnyddio cyfathrebu integredig, wedi'i arwain gan gysylltiadau cyhoeddus, er mwyn cyflawni canlyniadau rhagorol.

GWOBR AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT
Mae'r wobr hon yn agored i asiantaethau cysylltiadau cyhoeddus neu dimau cysylltiadau cyhoeddus mewnol. Bydd y wobr yn cydnabod ymgyrchoedd sy'n hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant a newid yn y diwydiant. Gall fod yn ymgyrch fewnol neu allanol. Bydd y cais buddugol yn dangos tystiolaeth glir o'r effaith gadarnhaol y mae'r gwaith yn ei chael ar amrywiaeth yn y diwydiant drwyddi draw.

DIGWYDDIAD / LANSIAD Y FLWYDDYN
Dylai'r ceisiadau yn y categori hwn ddangos sut mae cysylltiadau cyhoeddus wedi'u defnyddio'n effeithiol i lansio cynnyrch neu wasanaeth newydd, denu cynulleidfa ar gyfer digwyddiad, neu feithrin perthynas gyda'r cyhoedd er mwyn sicrhau enw da y digwyddiad, y cynnyrch neu'r gwasanaeth o dan sylw.

GWOBR YMGYRCH GYLLIDEB ISEL
Mae'r wobr hon yn cydnabod ymgyrch oedd â chyllideb o lai na £10k sydd wedi'i chyflwyno i gyflawni canlyniadau rhagorol.

GWOBR CYSYLLTIADAU CYFRYNGAU
Mae'r wobr hon yn cydnabod ymgyrchoedd sy'n defnyddio cysylltiadau wedi'u targedu â'r cyfryngau i gyflawni canlyniadau rhagorol.

GWOBR SECTOR CYHOEDDUS
Mae'r wobr hon yn cydnabod gwaith sydd wedi'i wneud gan, neu ar ran, llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau tân, heddluoedd, asiantaethau gweithredol a chyrff anadrannol.

GWOBR DIBEN
Mae'r wobr hon yn cydnabod anghenion cymdeithasol, yr effaith a gafwyd, ymgysylltiad â gweithwyr, camau gan arweinwyr a chysylltiadau â Nodau Datblygiad Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Bydd angen i'r cais buddugol roi tystiolaeth glir o effaith yr ymgyrch yn y pen draw, yn ogystal â dangos cysylltiad cryf ag amcanion busnes. Bydd ymgyrchoedd unwaith yn unig gyda rhesymeg gref yn cael eu hystyried hefyd.

CATEGORÏAU GWOBRAU I UNIGOLION

GWEITHIWR PROFFESIYNOL Y FLWYDDYN

Mae'r categori hwn yn agored i unrhyw unigolyn, pennaeth asiantaeth, gweithiwr llawrydd neu ymgynghorydd annibynnol. Bydd yr unigolyn wedi dangos perfformiad rhagorol yn ogystal â gwneud cyfraniad sylweddol i'r diwydiant ac i'w sefydliadau. Bydd y beirniaid yn awyddus i weld rhestr gref o gleientiaid, tystiolaeth o gadw cleientiaid, gwaith o safon a chanlyniadau, arloesedd a syniadau creadigol wedi'u rhoi ar waith.

SEREN NEWYDD Y FLWYDDYN

Yn agored i unigolion y Genhedlaeth Nesaf* mewn ymgyngoriaethau a thimau mewnol. Caiff yr enillydd ei gydnabod am berfformiad rhagorol yn eu sefydliad a'u cyfraniad i'r diwydiant cysylltiadau cyhoeddus yn gyffredinol. Gall yr enwebiadau ar gyfer y wobr gael eu cyflwyno gan yr unigolyn o dan sylw, cydweithiwr neu gyflogwr. Gall sefydliadau gyflwyno unrhyw nifer o geisiadau.

Mae unigolyn o'r Genhedlaeth Nesaf yn gallu bod yn unrhyw un o dan 30 oed ar adeg y dyddiad cau olaf ar gyfer cyflwyno cais ar 20 Mawrth, 2024.

CATEGORÏAU GWOBRAU I DIMAU

TÎM MEWNOL Y FLWYDDYN

Mae'r categori hwn yn agored i unrhyw dîm cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu mewnol, preifat, nid-er-elw neu yn y sector cyhoeddus yn y DU. Bydd y beirniaid yn edrych ar y rôl y mae cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu yn ei chwarae yn y sefydliad ehangach, defnydd effeithiol o adnoddau, rhoi syniadau creadigol ar waith a chyfraniad cyffredinol at amcanion y sefydliad. Yn yr un modd â phob categori tîm, bydd beirniaid yn marcio'ch cais yn erbyn y meini prawf canlynol: perfformiad y tîm, staff, ariannol ac arloesedd.

YMGYNGHORIAETH NEWYDD Y FLWYDDYN

Mae'r categori hwn yn agored i unrhyw ymgynghoriaeth yn y DU, boed yn un sy'n ymwneud â sawl maes neu un maes penodol yn unig. Rhaid i'r ymgynghoriaeth fod wedi'i sefydlu hyd at 24 mis cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais, sef 31 Mawrth, 2024. Gwybodaeth hanfodol i'w chynnwys: nifer y gweithwyr, dyddiad sefydlu a manylion trosiant (rhaid datgelu caffaeliadau). Bydd y beirniaid yn chwilio am amcanion clir a dadansoddiad o berfformiad ochr yn ochr â chyllidebau, twf a thystiolaeth o gadw staff a sylfaen o gleientiaid. Asesir perfformiad a thwf ariannol, a chaiff ymgyngoriaethau eu cymeradwyo am eu hymroddiad i amrywiaeth. Rhowch amlinelliad o'r rhaglenni a allai fod ar waith gennych sy'n annog grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol.

YMGYNGHORIAETH FACH Y FLWYDDYN

Mae'r categori hwn yn agored i unrhyw ymgynghoriaeth sydd â hyd at 10 aelod staff, boed yn ymwneud â sawl maes neu un maes penodol yn unig. Bydd y beirniaid am weld tystiolaeth o berfformiad ariannol, cadw/caffael staff a chleientiaid, arloesedd a rhoi syniadau creadigol ar waith.

Cofiwch gynnwys:

- Gwybodaeth hanfodol: nifer y gweithwyr, dyddiad sefydlu a manylion trosiant (rhaid datgelu caffaeliadau).
- Rhestr o gleientiaid sy'n dangos y rhai sydd wedi'u cadw, twf yr ymgynghoriaeth, a pherfformiad ym maes cysylltiadau cyhoeddus.
- Dylai'r pwyslais fod ar strategaethau cadw staff a chaiff ymgyngoriaethau eu canmol am eu hymroddiad i amrywiaeth.
- Rhowch amlinelliad o unrhyw raglenni sydd gennych sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.
- Ffefrir ceisiadau sy'n cyfeirio at ymrwymiad i broffesiynoldeb.
- Asesir perfformiad a thwf ariannol. Rhaid datgelu caffaeliadau.
- Ystyrir arloesedd o fewn yr ymgynghoriaeth. Er enghraifft, buddsoddi mewn isadeiledd, cynhyrchion newydd gan y cleient, dull newydd o staffio.

CATEGORÏAU GWOBRAU I DIMAU

YMGYNGHORIAETH GANOLIG Y FLWYDDYN

Mae'r categori hwn yn agored i unrhyw ymgynghoriaeth sydd â hyd at 11-25 aelod staff, boed yn ymwneud â sawl maes neu un maes penodol yn unig. Bydd y beirniaid am weld tystiolaeth o berfformiad ariannol, cadw/caffael staff a chleientiaid, arloesedd a rhoi syniadau creadigol ar waith.

Cofiwch gynnwys:

- Gwybodaeth hanfodol i'w chynnwys: nifer y gweithwyr, dyddiad sefydlu a manylion trosiant (rhaid datgelu caffaeliadau).
- Rhestr o gleientiaid sy'n dangos y rhai sydd wedi'u cadw, twf yr ymgynghoriaeth, a pherfformiad ym maes cysylltiadau cyhoeddus.
- Dylai'r pwyslais fod ar strategaethau cadw staff a chaiff ymgyngoriaethau eu canmol am eu hymroddiad i amrywiaeth.
- Rhowch amlinelliad o unrhyw raglenni sydd gennych sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.
- Ffefrir ceisiadau sy'n cyfeirio at ymrwymiad i broffesiynoldeb.
- Asesir perfformiad a thwf ariannol. Rhaid datgelu caffaeliadau
- Ystyrir arloesedd o fewn yr ymgynghoriaeth. Er enghraifft, buddsoddi mewn isadeiledd, cynhyrchion newydd gan y cleient, dull newydd o staffio.

YMGYNGHORIAETH FAWR Y FLWYDDYN

Mae'r categori hwn yn agored i unrhyw ymgynghoriaeth sydd â 26 aelod staff neu ragor, boed yn ymwneud â sawl maes neu un maes penodol yn unig. Bydd y beirniaid am weld tystiolaeth o berfformiad ariannol, cadw/caffael staff a chleientiaid, arloesedd a rhoi syniadau creadigol ar waith.

Cofiwch gynnwys:

Gwybodaeth hanfodol i'w chynnwys: nifer y gweithwyr, dyddiad sefydlu a manylion trosiant (rhaid datgelu caffaeliadau).

Rhestr o gleientiaid sy'n dangos y rhai sydd wedi'u cadw, twf yr ymgynghoriaeth, a pherfformiad ym maes cysylltiadau cyhoeddus.

Dylai'r pwyslais fod ar strategaethau cadw staff a chaiff ymgyngoriaethau eu canmol am eu hymroddiad i amrywiaeth.

Rhowch amlinelliad o unrhyw raglenni sydd gennych sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.

Ffefrir ceisiadau sy'n cyfeirio at ymrwymiad i broffesiynoldeb.

Asesir perfformiad a thwf ariannol. Rhaid datgelu caffaeliadau.

Ystyrir arloesedd o fewn yr ymgynghoriaeth. Er enghraifft, buddsoddi mewn isadeiledd, cynhyrchion newydd gan y cleient, dull newydd o staffio.

CATEGORÏAU GWOBRAU I DIMAU

GWOBR DIWYLLIANT TÎM A CHYMUNED (YN AGORED I ASIANTAETHAU A THIMAU MEWNOL FEL EI GILYDD)

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer iawn o bwyslais wedi cael ei roi ar ystyr sefydliadau, beth maent yn ei wneud, a'u rôl yn eu cymunedau.

Nid sefydliadau sy'n gwneud arian yn unig yw busnesau. Maent yn lleoedd sy'n dod â phobl at ei gilydd, yn cronni adnoddau a – gyda lwc – yn gwneud gwahaniaeth yn y byd Mae sefydliadau wedi dod i delerau ag angen cynyddol am drafodaeth ynghylch iechyd meddwl, materion cynhwysiant, y gwahaniaeth mewn cyflogau dynion a menywod, a nifer o faterion cymdeithasol. Mae'r materion hyn wedi cael cryn sylw dros y flwyddyn ddiwethaf, a byddant yn flaenllaw am gryn amser eto yn ôl pob tebyg.

Roedd y straeon cadarnhaol a gafodd yr effaith fwyaf arnom dros y blynyddoedd diwethaf i gyd yn canolbwyntio ar gymuned, newid cymdeithasol a chynhwysiant – Capten Tom, #metoo, ymdrechion Marcus Rashford i fwydo plant ysgol, mudiad 'mae bywydau du o bwys', Dolly Parton yn hyrwyddo llythrennedd plant, Nike yn ymrwymo cannoedd o filiynau i elusennau cydraddoldeb hiliol. Unigolion a busnesau yn ysgogi newid er lles. Mae busnesau – ein cleientiaid – yn gwneud hyn hefyd.

Mae'r Wobr Diwylliant a Chymuned yn amlygu'r asiantaethau a'r timau mewnol sy'n mynd yr ail filltir i gynnig gwasanaeth i'w cleientiaid a'u cwsmeriaid. Maent yn gwasanaethu eu pobl a'r cymdeithasau y maent yn rhan ohonynt ac yn ceisio gwneud gwahaniaeth.

Mae'r meini prawf a gaiff eu hystyried wrth feirniadu'r wobr hon i'w gweld ar dudalen 3.